Polisi: Asesu a Thracio Cynnydd
Dyddiad Mabwysiadu: Mawrth 2025
Dyddiad Adolygu: Mawrth 2026
Llofnod Cadeirydd y Corff: *Mr. Huw Hilditch-Roberts*

# RHAGARWEINIAD

- Mae asesu datblygiad a chynnydd plant yn broses parhaus sy’n cychwyn pan dderbynnir hwy i’r ysgol am y tro cyntaf, ac yn rhan annatod ac yn flaenoriaeth o fewn y cwricwlwm newydd.

- Mae’r broses yn rhan annatod o wead profiadau addysgol a gynigir yn yr ysgol.

- Wrth asesu sicrheir bod y ddarpariaeth a'r profiadau a gynigir i blant yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn gydnaws a'u hanghenion fel unigolion.

- Mae natur datblygiad pob plentyn yn unigryw. Nid oes patrwm cyson a di-dor yn perthyn i ddatblygiad plant. Ambell waith carlama'r datblygiad yn ei flaen, dro arall mae'n aros yn ei unfan am gyfnod. Gall ddibynnu ar sawl factor – aeddfedrwydd y plant, agwedd y plant, natur a chyfoeth y profiadau a gynigir iddynt, problemau teuluol a'r cefndir.

- Mae'r broses asesu a marcio yn rhan annatod a chyson o'n gweithgarwch ni fel athrawon wrth drefnu'r gwaith a'r gwersi yn ôl y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Mae asesu yn fwy o lawer na mater o ystyried datblygiad plentyn o safbwynt ei gyrhaeddiad addysgol. Mae datblygiad y plentyn fel person yn bwysig hefyd.

- Caiff gwaith y plant ei farcio'n ddyddiol a manwl, a chedwir cofnod rheolaidd o ddatblygiad a chanlyniadau'r plant. Rhaid i'r canlyniadau hyn lywio'r gwaith dilynol, er mwyn hyrwyddo safonau uwch.

- Dadansoddir unrhyw asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau allanol ac unrhyw ddata asesu er mwyn gwella perfformiad disgyblion ac i hyrwyddo safonau uwch yn yr Ysgol.

# PWRPAS ASESU A CHOFNODI

- CYNORTHWYO ATHRAWON

  - ✓ I gydnabod llwyddiant a rhoi clod i blant am yr hyn y maent wedi ei gyflawni.
  - ✓ I gynnig tystiolaeth eglur i'r modd y mae plant yn dysgu a datblygu trwy fonitro samplau o waith a chofnodi sylwadau, marciau a lefelau.
  - ✓ I fedru adrodd yn hyderus am ddatblygiad plant.
  - ✓ I allu arfarnu'r ddarpariaeth addysgol a gynigir yn yr ysgol hon.
  - ✓ I ganfod cryfderau a gwendidau plant.
  - ✓ I gynnig cymorth ac anogaeth briodol i'r plant.
  - ✓ I hybu'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf, a gosod targedau i ymgyrraedd tuag atynt.
  - ✓ I hyrwyddo safonau uwch.

- DYLAI ASESU

- ✓ Fod yn rhan annatod o gyfrannu a derbyn addysg.
- ✓ Gofnodi cynnydd a chyrhaeddiad y plant.
- ✓ Estyn cymorth i bob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn.
- ✓ Adnabod anhawsterau penodol er mwyn darparu gweithgareddau ar gyfer anghenion unigol.
- ✓ Darparu adborth cywir fydd yn sail i ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.
- ✓ Gwerthuso ein effeithiolrwydd ein hunain fel athrawon.
- ✓ Monitor a gwerthuso'r rhaglenni dysgu a ddefnyddir gennym.
- ✓ Sicrhau cynnydd mewn dysgu a chodi safonau.

## Y BROSES ASESU

1. Marcio / Adborth
2. Cofnod Cyrhaeddiad Plentyn / Offeryn Tracio
3. Trafod gyda rhieni
4. Adroddiad i rieni
5. Asesu a chyfeirio plant ag anghenion arbennig
6. Trosglwyddo'r wybodaeth o un ysgol i'r llall ac o ddosbarth i ddosbarth.
7. Arsylwi
8. Rhan weithredol i'r plentyn.
9. Canlyniadau profion tymhorol, blynyddol. Dadansoddi a gosod targedau. Adolygu a monitor cynnydd disgyblion unigol.
10. Canlyniadau Profion Cenedlaethol llythrennedd a rhifedd o Blwyddyn 2
11. Dadansoddiad o dracio cynnydd.

## MARCIO / ADBORTH

Rhaid i marcio unrhyw ddarn o waith fod yn adeiladol, gan dynnu sylw at rai camgymeriadau. Yn y Dysgu Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 mae ganddom côd marcio sydd yn arwain disgyblion i gywiro gwallau syml yn eu gwaith..] Rhoddir adborth adeiladol gyda ffocws yn hytrach na graddio chyrhaeddiad.
Wrth farcio mae'r athro i roi cymorth, cyngor ac i gloriannu'r gwaith. Dylid trafod gyda'r plant a'u harwain i feddwl drostynt eu hunain, ac i geisio gwella eu gwaith. Rydym yn Ysgol Pen Barras yn credu'n gryf bod asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar waith disgyblion ac felly mae disgyblion yn cael eu annog i farcio gwaith eu hunain yn achlysurol gan gywrio gwallau mewn pin gwyrdd. Rydym hefyd yn credu'n gryf bod asesu cyfoedion yn cael effaith gadarnhaol ar

godi safonnau gwaith disgyblion- o fewn y tymor rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion trafod a marcio gwaith eu gilydd gan rhoi sylw ar cryfderau a mannau gwella’r gwaith yn seiliedig ar meini prawf llwyddiant y wers. (Gweler posteri dosbarth)

## OFFERYN TRACIO YSGOL PEN BARRAS

Ar ddiwedd bob tymor, mae athrawon yn bwydo / diweddaru offeryn tracio eu dosbarth a disgyblion- diweddariad lles, presenoldeb, rhifedd a llythrennedd. Mae’r wybodaeth yma yn rhoi darlun dros amser o gynnydd ddisgyblion. Mae hefyd yn fan ganolog i fewnbynnu data asesiadau personol ac yn ddefnyddiol iawn wrth dargedu gwelliant i ddisgyblion. Mae’n adnodd gwerthfawr i fesur cynnydd. Mae’n offeryn sy’n cael ei ddiweddaru ac yn esblygu. Mae’n uwcholeuo grwpiau dysgwyr megis PYDD, ADY, MATH.

## TRAFOD Â RHIENI

Cynhelir nosweithiau rhieni 3 gwaith y flwyddyn.
*Yn nhymor yr Hydref, sesiwn galw mewn/anwytho.
*Mis Tachwedd- cyfarfod wyneb wrth wyneb wrth adrodd adr gynnydd/ trafod targedau disgyblion.
*Mis Mawrth- cyfarfod I graffu ar waith plant gyda’u rhieni ac eto I drafod cynnydd.

Hefyd, mae croeso i’r rhieni gyfarfod â’r athrawon neu’r pennaeth unrhyw amser i drafod eu plentyn. Hefyd, gofynna’r athrawon am weld y rhieni os oes unrhyw broblem i’w thrafod ynglŷn â’r plentyn. Os oes gan riant bryder ynglyn a cynnydd academaidd eu plentyn, rhoddir cyfleoedd iddynt drafod hyn hefyd mewn cyfarfodydd gyda’r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol sef Mrs Nicola Roscoe.

## ADRODDIAD I RIENI

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i rieni ar ddatblygiad y plant ymhob pwnc yn ôl y Cwricwlwm Cenedlaethol a hefyd ar eu datblygiad personol a chymdeithasol yn ystod Tymor yr Haf. Gall rhieni gael mynediad at ganlyniadau profion cenedlaethol eu plentyn ar HWB.

Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys naratif ar safonau llythrennedd, rhifedd a sgiliau cymhwysedd digidol disgyblion wrth weithio yn draws cwricwlaidd ac hefyd canlyniadau profion Cenedlaethol rhifedd a llythrennedd disgyblion o Blwyddyn 2 hyd at Blwyddyn 6.

Rhoddir cyfle i'r rhieni drafod unrhyw fater sy'n codi o'r adroddiadau gyda'r athrawon neu'r pennaeth.

## ASESU CYNNYDD A CHYFEIRIO PLANT AG ADY

Os yw'r plentyn yn cael trafferth gyda'i addysg a phan amheuir nad yw cynnydd plentyn yn gyson â'r hyn a ddisgwylir ganddo, yna dilynir y camau priodol i geisio gwella'r sefyllfa yn unol a pholisi Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol.

Pan amheuir bod gan blentyn anhawsterau dysgu dylid trafod hynny yn agored gyda'r rhieni ar y cyfle cyntaf, gan roi gwybod iddynt am unrhyw gamau a gymerwyd gan yr ysgol. Bydd unrhyw benderfyniad i gyfeirio hefyd yn fater i'w drafod â nhw. Mae'r ysgol yn sicrhau cyswllt da gyda rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu trwy'r llyfrau cyswllt ysgol/cartref. Mae'r llyfrau yma yn rhoi gwaith targedu i'r disgybl a'r rhiant i'w wenud adref ac mae gan yr athrawon a'r rheini lle i roi sylwadau wythnosol ar gynnydd y plentyn o fewn y llyfr.

## TROSGLWYDDO GWYBODAETH

Os yw disgybl yn cael ei drosglwyddo o un ysgol i ysgol arall, trosglwyddir ei gofnodion yn electronig ac ar bapur pe dymunir.
Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo rheolaidd rhwng Ysgol Pen Barras ac Ysgol Brynhyfryd i drafod natur y wybodaeth sydd i'w throsglwyddo rhwng ysgolion ar drefn ar gyfer gwneud hynny.
Dylid cofio bod gan rieni hawl i weld y cofnodion sy'n cael eu cadw gan ysgol am eu plant. Dylid felly sicrhau cywirdeb y ffeithiau a gofnodir. Nid yw hyn yn wir am gofnodion a gedwir gan yr athro i'w ddibenion ei hun yn unig.

## ARSYLWI AC ASESU CYNNYDD

Rhaid i athrawon asesu datblygiad eu disgyblion trwy arsylwi yn ofalus ar waith pob plentyn a'i wneud yn fwy gwrthrychol trwy ganolbwyntio ar elfennau penodol yng ngwaith y plant.

Wrth arsylwi ac asesu'r plant yn darllen, dylid rhoi sylw i'r elfennau canlynol yn eu tro

- Ymateb i'r cynnwys

- Hyder wrth ymwneud â thestun anghyfarwydd
- Brwdfrydedd ac awydd i ddarllen
- Trafod y testun gan ddefnyddio geirfa briodol.

Wrth arsylwi ac asesu'r plant yn ysgrifennu, dylid nodi'r meini prawf canlynol

# RHAN WEITHREDOL I'R PLENTYN

Rhaid cynorthwyo plant i ddatblygu'r gallu i asesu eu hunain drwy drafod y gwaith gyda'r plant a rhannu gyda nhw, ar lefel briodol, wybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir. Dôn't felly i wybod mwy am sut a beth mae nhw'n ddysgu. Wrth i blant gynefino â chael rhan weithredol yn y broses asesu, tyfant yn eu gallu i dderbyn cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu ac i ddod yn fwy annibynnol fel dysgwyr.
Gall y broses o feithrin plant i adnabod eu cryfderau, trafod meini prawf llwyddiant a rhannu gwybodaeth am y camau nesaf gychwyn yn y dosbarth derbyn. Mae'n bwysig ein bod yn cadw golwg ar ddatblygiad y plentyn cyflawn. Rhaid ceisio parchu pob plentyn a gwerthfawrogi cyfraniad pob plentyn.

Dyddiad adolygu nesa'r Polisi : **MAWRTH 2026**